Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 24 Tachwedd 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Paul Hinge, Catherine Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Endaf Edwards

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau.

(10:00am – 12:00pm)

1 **Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**
Roedd y Cynghorydd Maldwyn Lewis wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

3 **Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**
Dim.

4 **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

5 **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio a ganlyn a drafodwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor ac yr oedd angen iddo eu hystyried ymhellach:-

A200906 Addasu, estyn a newid yr annedd bresennol i ddarparu pedair fflat hunangynhwysol, 1 Heol y Castell, Tan y Cae, Aberystwyth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau, gan gynnwys gosod deunydd gwrthsain cyn i neb feddiannu'r fflatiau, gwahardd y meddianwyr rhag defnyddio'r to gwastad fel ardal amwynder, a'u gwahardd hefyd rhag newid y ffenestr yn ddrws i gael mynediad ato.

---

6 **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Bu i Mr Luke Veasey (Ymgeisydd) annerch y Pwyllgor yn unol â’r atodiad dros dro i’r weithdrefn weithredol sy’n caniatáu i’r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210529 Codi estyniad i Trafford House, Trawsgoed, Aberystwyth

**CYMERADWYO’R** cais yn ddibynnol ar amodau.

---

Bu i Mr Elfyn Jones (Ymgeisydd) annerch y Pwyllgor yn unol â’r atodiad dros dro i’r weithdrefn weithredol sy’n caniatáu i’r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210615 Llain adeiladu arfaethedig ar gyfer un annedd, gyda mynedfa newydd at y briffordd, Llain wrth ymyl Dolau Gwyn, Dole, Bow Street, Aberystwyth

**GOHIRIO’R** penderfyniad ar y cais am fis i ganiatáu mwy o amser neu ‘gyfnod callio’ er mwyn ystyried holl ffeithiau’r cais.

---

7 **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi’r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw

8 **Apeliadau cynllunio**

Dim.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 08 Rhagfyr 2021**

**Cadeirydd:-**____________________

**Dyddiad:**______________________